# Cyswllt Iechyd y Cyhoedd

**Gan Brif Swyddog Meddygol Cymru**

| | |
|---|---|
| **Dosbarthu:** | Gweler Atodiad 1 |
| **Oddi wrth:** | Yr Athro Isabel Oliver, Prif Swyddog Meddygol Cymru |
| **Dyddiad:** | 5 Mai 2026 |
| **Cyfeirnod:** | CEM/CMO/2026/03 |
| **Categori:** | Ymaddasu i Newid Hinsawdd |
| **Teitl**: | Risg Iechyd Oherwydd Gwres: Nodyn Cyngor ar gyfer Partneriaid System Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **Cefndir:** Bwriad y cyngor hwn yw helpu partneriaid y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wella eu cynlluniau a'u paratoadau ar gyfer senarios tywydd poeth, a'u hannog i gymryd camau gweithredu pellach i atal neu leihau risgiau i iechyd, gan alluogi ymateb cyflym ac effeithiol pan fo angen, a chyfleu negeseuon allweddol i'r partneriaid hynny. | |
| **Rheswm dros anfon:** Mae Asesiad o Risg Newid Hinsawdd y DU wedi awgrymu y bydd hafau'n mynd yn gynyddol boethach, ac y gellir disgwyl gweld mwy o gyfnodau poeth eithafol neu anarferol a thonnau gwres.<br><br>Mae'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 yn nodi'r strategaeth gyffredinol ar gyfer cynllunio addasiadau, gan gynnwys ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol (gweler adran 5.7 a thudalen 57), sy'n ymwneud ag effeithiau gwres. | |

Annwyl Gydweithwyr

**Cyd-destun**

Gall effeithiau andwyol tywydd poeth ar iechyd ddigwydd yn gyflym, o fewn cwpl o ddyddiau i'r tymheredd godi ond gellir osgoi llawer o'r effeithiau hyn. Mae cynllunio a pharodrwydd da yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o niwed i unigolion bregus ac effeithiau ar wasanaethau hanfodol.

Ysgrifennodd fy rhagflaenydd Syr Frank Atherton atoch yn flaenorol, ar 7 Gorffennaf 2022, 3 Gorffennaf 2023, a 24 Gorffennaf 2024, yn disgrifio disgwyliad Llywodraeth Cymru y byddai partneriaid y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datblygu cynlluniau i roi sylw i risgiau sy'n codi o ganlyniad i dywydd poeth. Dywedodd y dylai'r cynlluniau hyn fod yn berthnasol gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod parodrwydd a chydnerthedd cyn unrhyw dywydd poeth, ynghyd â mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol. Ysgrifennais atoch ar 18 Mehefin 2025 yn ailadrodd y disgwyliad hwn.

Hyderaf y bydd cynlluniau o'r fath yn eu lle gan bob un ohonoch bellach i osgoi niwed.

Bwriad y nodyn cyngor hwn yw eich helpu i wella'ch cynlluniau a'ch paratoadau ar gyfer senarios tywydd poeth, ac annog camau pellach i atal neu leihau risgiau i iechyd, gan alluogi ymateb cyflym ac effeithiol pan fo angen a chyfleu negeseuon allweddol i eraill â chyfrifoldebau gofalu (e.e. gofalwyr di-dâl).

## Risgiau i iechyd oherwydd gwres

Gall cyfnodau maith o dywydd poeth neu anarferol o boeth achosi risgiau difrifol i iechyd, ond gellir atal salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres i raddau helaeth. Pobl hŷn, plant ifanc a'r rhai â chyflyrau iechyd yn barod yw'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Gall risgiau iechyd tywydd poeth ar bobl, gan gynnwys cleifion a grwpiau bregus, roi pwysau ar y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae effeithiau iechyd uniongyrchol tywydd poeth yn cynnwys straen gwres a blinder a all arwain at gur pen, crampiau, brech, pendro, llewygu (yn aml oherwydd dadhydradu), chwyddo (fferau yn bennaf), a gall ddatblygu yn drawiad gwres. Gall hefyd fod effeithiau anuniongyrchol er enghraifft o ganlyniad i darfu ar gwsg neu ganlyniadau ehangach cyfnodau o dywydd poeth, megis dirywiad mewn ansawdd aer a dŵr, digonolrwydd dŵr, a thanau gwyllt gyda'r effaith ar iechyd o ganlyniad.

Wrth i'r hinsawdd newid, mae strategaethau addasu i leihau straen gwres fel darparu mwy o gysgod, mannau oer a mynediad da at ddŵr yfed oer yn hanfodol i sicrhau lles y cyhoedd.[1]

## Cyngor a rhybuddion gan y Swyddfa Dywydd

Roedd y llythyrau blaenorol yn tynnu sylw at y Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol (NSWWS) a weithredir gan y Swyddfa Dywydd ledled y DU, ac sy'n darparu rhybuddion o dywydd garw neu beryglus, gan gynnwys gwres, a allai achosi perygl i fywyd neu darfu eang yng Nghymru. Roeddent yn eich annog i gofrestru i gael rhybuddion NSWWS yma.

Roeddent hefyd yn rhoi gwybod y gallai'r Swyddfa Dywydd gyhoeddi cyngor a rhagolygon anffurfiol sy'n berthnasol i Gymru cyn cyhoeddi rhybuddion NSWWS swyddogol, ac yn ôl yr arfer gorau dylech geisio'r cyngor hwn yn uniongyrchol oddi wrth y Swyddfa Dywydd drwy gysylltu â wales.cca@metoffice.gov.uk. Bydd pob asiantaeth gofrestredig yn derbyn cyngor a rhybuddion o'r fath gan y Swyddfa Dywydd ar yr un pryd, a dylai asiantaethau partner Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried cyd-drafod unrhyw gyngor/gwybodaeth gynnar gan y Swyddfa Dywydd a'u defnyddio i lywio eu gweithredoedd.

Mae gwybodaeth ychwanegol am rybuddion gwres y Swyddfa Dywydd yng ngohebiaeth fy rhagflaenydd ar y pwnc.

## Camau gweithredu partneriaid y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Dylech nawr fod â chynlluniau ar waith, yn seiliedig ar asesiad risg, er mwyn rhoi sylw i risgiau a nodir sy'n codi o ganlyniad i dywydd poeth**. Dylai'r cynlluniau hyn fod yn berthnasol gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod parodrwydd a chydnerthedd cyn unrhyw dywydd poeth, ynghyd ag mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol.

---

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi taflenni ffeithiau ar gorboethi yn ystod yr haf mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n sylweddol, gorboethi yn ystod yr haf mewn eiddo ôl-1985 (gan gynnwys adeiladau hŷn wedi'u troi'n fflatiau), a [1]lleithder cymharol yn ystod yr haf mewn adeiladau hŷn.

### *Parodrwydd a chydnerthedd gydol y flwyddyn*

Dylai eich cynlluniau, wedi eu llywio gan asesiad risg, fod wedi nodi a bellach dylent fod yn sbarduno **gwelliannau amgylcheddol parhaus** i leihau risgiau a chynyddu diogelwch cleifion, staff a defnyddwyr eraill mewn tywydd poeth. Gall hyn gynnwys gweld a ellir cysgodi neu agor ffenestri yn hawdd, cael mwy o gysgod yn yr awyr agored, inswleiddio adeiladau a'u peintio gyda phaent adlewyrchol, cynnal systemau awyru ac aerdymheru, creu ystafelloedd oer o fewn adeiladau a sicrhau y gellir mesur y tymheredd yn hawdd.

Mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, dylai staff wybod beth allant ei wneud i leihau'r risgiau i gleifion a chleientiaid, gan gynnwys nodi'r rhai mwyaf bregus a chynnal **asesiadau risg ac anghenion unigol**. Dylid rhoi sylw i reoli meddyginiaethau, risgiau llety a sicrhau bod cynlluniau gofal yn cyfathrebu risgiau ac effeithiau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth fel sy'n briodol, yn mynd i'r afael â nhw ac yn eu monitro. Mae trefniadau hyblyg yn amhrisiadwy; er enghraifft, cynyddu darpariaeth dŵr yfed oer, sicrhau mynediad parod at wyntyllau oeri a chael yr opsiwn i newid o fwydlenni bwyd poeth i oer (gyda chynnwys dŵr uchel).

Dylai cynlluniau wrth gefn sicrhau bod unrhyw dywydd poeth yn tarfu cyn lleied â phosibl ar barhad busnes. Mae hyn yn cynnwys **camau i ddiogelu staff**, er enghraifft opsiynau i newid rotas a chynyddu gallu ymchwydd, ffyrdd amgen o weithio neu ddefnyddio cyfarpar mewn gwahanol ffyrdd, ynghyd â chamau gweithredu o ran datrysiadau cadw meddyginiaeth, cadernid system TG etc.

Dylai eich cynlluniau gynnwys manylion am sut y byddwch yn **ymateb i gyfnodau o dywydd poeth**. Dylid diffinio rolau a chyfrifoldebau, ynghyd â llif gwybodaeth (o fewn sefydliadau ac i gyrraedd gwasanaethau wedi'u comisiynu a gofalwyr di-dâl) ac ysgogiadau camau gweithredu. Mae'n hanfodol cydweithio o fewn ac ar draws asiantaethau a rhwydweithiau.

Dylid rhoi eich **cynlluniau cyfathrebu ar waith** cyn cyfnodau o dywydd poeth. Dylid tynnu sylw staff, cleifion, cleientiaid a'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n rhoi ac yn derbyn gofal cartref di-dâl, at y cyngor diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y cyngor hwn yn cefnogi cynllunio, cyfathrebu a chydweithio cyn i gyfnodau tywydd poeth ddigwydd.

Ar lefel leol a rhanbarthol, dylech sicrhau bod eich cynlluniau yn gydnaws â threfniadau parodrwydd a chydnerthedd eraill ac yn cyd-fynd â hwy yn dda. Mae'n syniad **cyfathrebu a chydlynu** hyn drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fforymau Cymru Gydnerth Lleol a mecanweithiau partneriaeth perthnasol eraill. Gall hyfforddiant ac ymarfer amlasiantaethol rheolaidd helpu i brofi cynlluniau a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer eu diben.

### *Ymateb i gyfnod o wres*

Os yw'r Swyddfa Dywydd yn rhagweld tywydd eithafol neu dywydd anarferol o boeth, dylech fod yn barod i roi trefniadau a chynlluniau wrth gefn ar waith fel sy'n briodol. Dylai staff gael eu hysbysu a dylid cadarnhau negeseuon allweddol, cyngor a chamau gweithredu gyda nhw, gan roi rhaeadr gyfathrebu ar waith (o fewn y sefydliadau a thu hwnt i unrhyw ddarparwyr gwasanaeth a gomisiynir, a lle bo hynny'n briodol, i'r rheini sy'n rhoi ac yn derbyn gofal cartref di-dâl).

Os yw'r tywydd eithafol neu anarferol o boeth ar gyrraedd (yn unol â chadarnhad gan rybuddion melyn neu goch NSWWS y Swyddfa Dywydd):

- Dylai partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol roi trefniadau wrth gefn ar waith, gan gynnwys paratoi ar gyfer ymchwydd mewn galw am y gwasanaeth, monitro'r tymheredd

dan do a chymryd camau gweithredu (fel y nodir mewn cynlluniau) i gadw adeiladau yn oer er mwyn lleihau'r risg i gleifion a chleientiaid.

- Dylai partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol fynd ati yn ddi-oed i hysbysu staff, darparwyr gwasanaeth a gomisiynir a, lle bo hynny'n ymarferol, y rheini sy'n rhoi ac yn derbyn gofal cartref di-dâl.

- Dylai partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddarparu gwasanaethau cleifion/cleientiaid mewn ffordd sy'n ystyried y cyngor diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (sy'n cynnwys cyngor penodol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a rheolwyr gofal cymdeithasol) ac unrhyw gynlluniau gofal unigol wedi'u paratoi ymlaen llaw. Gallai hyn gynnwys ymweld ag unigolion risg uchel a/neu eu gofalwyr, neu eu ffonio; cyfleu cyngor a negeseuon allweddol; a chynnig gwybodaeth am yr hyn y dylai pobl ei wneud os ydyn nhw'n teimlo'n sâl.

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bartner Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda mwy nag un rôl. O safbwynt darparu gwasanaethau, dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru weithredu ar y cyngor uchod fel y bo'n briodol. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi cyngor iechyd cyffredinol i'r cyhoedd drwy sianeli traddodiadol a'r cyfryngau cymdeithasol. Gall hyn gael ei deilwra i grwpiau poblogaeth gwahanol (e.e. y rhai sy'n ceisio ymdopi heb gyflenwad dŵr) a lleoliadau (y rhai sy'n bwriadu mynychu neu yn mynychu cynulliadau mawr yn yr awyr agored, megis cyngherddau neu wyliau).

- Dylai partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol fonitro risgiau ac effeithiau gwres ar iechyd staff, cleifion a chleientiaid a rhannu gwybodaeth am unrhyw bwysau ar y gwasanaeth.

- Gall risgiau ac effeithiau ar gyfer y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ehangach fynd y tu hwnt i risgiau ac effeithiau iechyd gwres; er enghraifft, gallai fod mwy o botensial ar gyfer anafiadau corfforol a boddi (o dreulio mwy o amser y tu allan ac mewn dŵr), llosgiadau (e.e., o ddefnyddio barbeciw), salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac ati.

### *Cynnydd mewn achosion ac Argyfyngau Sifil Posibl*

Bydd hyd a lled yr ymateb gofynnol yn cael ei bennu gan nodweddion yr achos o dywydd poeth, yn bennaf tymheredd, hyd y cyfnod, ardal ddaearyddol, demograffeg y boblogaeth, risgiau ac effeithiau lleol.

Hwyrach y bydd yr ymateb yn cael ei reoli'n dda o fewn asiantaethau unigol, gyda diweddariadau anffurfiol i Lywodraeth Cymru o bosibl. Ond bydd angen addasu'r trefniadau ymhellach os cyhoeddir rhybudd melyn neu goch NSWWS, neu os caiff argyfwng neu achos difrifol ei gyhoeddi. Yn yr achos hwn, gallai llawer o wahanol asiantaethau a gwasanaethau gael eu heffeithio, a gallai gwasanaethau fod mewn perygl o gael eu herio a'u gorlethu.

Os cyhoeddir argyfwng, bydd angen i bartneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol perthnasol gefnogi strwythurau ymateb brys y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth rhanbarthol ac, os ydynt wedi'u sefydlu, mecanweithiau ymateb brys cenedlaethol yn unol â Chynllun Ymateb Cymru Gyfan. Bydd Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda phartneriaid drwy strwythurau gorchymyn a rheoli amlasiantaethol sefydledig, gan ddarparu adroddiadau rheolaidd ar y sefyllfa i Lywodraeth Cymru os bydd angen.

**Myfyrio a dysgu**

Dylech adolygu eich asesiad risg a'ch cynlluniau cysylltiedig yn rheolaidd a chynnal ôl-drafodaethau amserol ar ymatebion i ddigwyddiadau. Gall hyn hysbysu dysgu o fewn ac ar draws asiantaethau a datblygu cynlluniau a chamau gweithredu mwy effeithiol ar gyfer y dyfodol i leihau risgiau i iechyd gan wres. Dylech sicrhau bod eich cynlluniau addasu i dywydd poeth hefyd yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf ar effeithiau newid hinsawdd ar iechyd (gweler, er enghraifft, yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd).

Bydd ein cyngor yn cael ei adolygu'n barhaus. Os yw partneriaid y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol am roi adborth a/neu rannu profiadau a dysgu, e-bostiwch: IGC.NewidHinsawddAcEPH@llyw.cymru.

Yn anffodus, mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo. Diolch am eich ymdrechion i sicrhau bod ein cymunedau yn parhau i fod yn ddiogel rhag effeithiau tywydd poeth.

Yn gywir



**YR ATHRO ISABEL OLIVER**

**Atodiad 1**

At sylw: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w anfon ymlaen at:

Bob Meddyg Teulu – sicrhewch fod yr holl nyrsys practis a gweithwyr nad ydynt yn brif weithwyr yn eich practis yn gweld y neges hon, a chadwch gopi ohoni yn eich ‘pecyn gwybodaeth locwm’.
Pob Fferyllydd Cymunedol
Clinigau annibynnol/preifat ac ysbytai a hosbisau ledled Cymru

At sylw: Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Cyfarwyddwyr Cynllunio
Arweinwyr Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd
Penaethiaid Ysbytai a Phrif Fferyllwyr

At sylw: Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Y Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd

At sylw: Partneriaid System Gofal Cymdeithasol

Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol